CYNGOR BRO MORGANNWG

# ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE

# CRYNODEB GWEITHREDOL




## BRO CHWARAE CYFEILLGAR

*Cefnogi Lles Corfforol a Meddyliol drwy Chwarae*

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**BRO CHWARAE CYFEILLGAR**

*Cefnogi Lles Corfforol a Meddyliol drwy Chwarae*




# CYNNWYS

**Adran 1:**
Cefndir a'n gweledigaeth ar gyfer chwarae ym Mro Morgannwg

**Adran 2:**
Beth wnaethon ni ar gyfer yr asesiad hwn?

**Adran 3**:
Effaith y Pandemig Coronafeirws

**Adran 4:**
Beth wnaethon ni ei ddarganfod?

**Adran 5:**
Ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen

THIS DOCUMENT IS AVAILABLE IN ENGLISH

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG



# ADRAN 1:
# CEFNDIR A'N GWELEDIGAETH AR GYFER CHWARAE YM MRO MORGANNWG

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae plant - maen nhw'n cydnabod bod gan blant hawl i allu chwarae ac maen nhw am i Gymru fod yn wlad lle mae plant yn cael eu gweld yn gynyddol tu allan yn mwynhau manteision chwarae.

Mae Cyngor Bro Morgannwg a'u partneriaid hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi hawl plentyn i chwarae. Maen nhw eisiau creu Bro sy'n dda i chwarae, sy'n rhoi'r amser, y lle a'r caniatâd i blant chwarae fel y dewisant - gan hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at blant yn chwarae yn eu cymunedau.

I wneud hyn, mae'n bwysig bod rhieni, teuluoedd, aelodau o'r gymuned a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar gyfleoedd chwarae yn cydnabod bod chwarae o bwys mawr i fywydau plant ac i'w datblygiad yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion wedi nodi amrywiaeth o fanteision i chwarae, gan gynnwys y cyfle i blant a phobl ifanc gael hwyl, datblygu perthnasau, magu hyder, datblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd, ymlacio, datblygu gwytnwch a'u sgiliau datrys problemau. Gall hefyd roi amser iddynt i ffwrdd o'r straen a'r heriau y gallent eu hwynebu mewn bywyd bob dydd.

Er mwyn arddangos eu hymrwymiad i gefnogi plant i chwarae, ym mis Tachwedd 2012 rhoddodd Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i asesu lefel y cyfleoedd chwarae yn eu hardal a chreu cynllun gweithredu cysylltiedig i wella'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael. Cwblhawyd asesiad a chynllun gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Bro Morgannwg i ddechrau ym mis Mawrth 2013, gydag asesiadau dilynol yn cael eu cynnal yn 2016, 2019 ac yn fwy diweddar yn 2022. Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o asesiad 2022.

Cynhaliwyd yr asesiad diweddaraf mewn cyfnod pan oedd pandemig y coronafeirws yn dal i effeithio ar bob agwedd ar fywyd.  Cydnabyddir bod y pandemig wedi effeithio ar brofiadau chwarae plant, pobl ifanc a theuluoedd, a dylid ystyried hyn wrth gymharu asesiadau ers 2013.

Mae Bro Morgannwg yn falch o gael amgylchedd naturiol sy'n cefnogi chwarae, gydag amrywiaeth o draethau, coetiroedd a mannau gwyrdd ar gael, yn ogystal â'r mannau adeiledig fel ardaloedd chwarae. Gall plant a phobl ifanc droi unrhyw le bron yn lle chwarae. Mae agweddau ar gymdeithas heddiw a all gyfyngu ar ryddid, amser a lle chwarae plant. Mae'n hanfodol cael dull partneriaeth i helpu i greu cymunedau sy'n dda i chwarae lle gall plant chwarae'n rhydd.

# GWELEDIGAETH AR GYFER CHWARAE YN Y FRO

## Bro Chwarae Cyfeillgar

# CANLYNIADAU

**Cyfleoedd cynhwysol i chwarae'n ddiogel yn y Fro**

**Rhwydwaith o staff, gwirfoddolwyr a rhieni sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi chwarae o ansawdd a hwyl**

**Mae'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yn y Fro yn cefnogi ystod o brofiadau chwarae**

**Mae pawb yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision iechyd a lles cymryd rhan mewn chwarae**

# AMCANION

**Cynnwys gweithredol plant a phobl ifanc yn y penderfyniadau ynghylch chwarae yn eu cymunedau**

**Mae cymunedau lleol yn lleoedd diddorol, croesawgar a diogel lle gall plant a phobl ifanc chwarae'n rhydd**

**Cefnogir ein cymunedau i wella a hyrwyddo'r cyfleoedd chwarae yn eu hardal**

**Cefnogir unigolion i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i gefnogi cyfleoedd chwarae hwyliog i bawb**

**Mae cydnabyddiaeth o fanteision chwarae a chydnabyddiaeth o hawl pob plentyn ac angen chwarae**

**Mae gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chynllunio a rheoli cymunedau yn deall eu rôl mewn, a'r angen i greu lleoedd sy'n addas i blant**

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan bod chwarae'n hawl sylfaenol i bob plentyn a pherson ifanc.

> "... yr hawl i bob plentyn gael gorffwys a hamdden, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden a chymryd rhan mewn bywyd diwylliannol a'r celfyddydau"
>
> *Erthygl 31:*





# ADRAN 2:

# BETH WNAETHON NI AR GYFER YR ASESIAD HWN?

Fel rhan o’r broses asesu, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob Awdurdod Lleol asesu tua 100 o wahanol feini prawf yn ymwneud â chwarae ar draws yr 8 Maes Pwnc canlynol:

- **Pwnc A:** **Poblogaeth** - nifer y plant a phobl ifanc, dwysedd poblogaeth, gwybodaeth am rai nodweddion gwarchodedig.
- **Pwnc B:** **Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol** - cyfleoedd sydd ar gael i blant anabl, plant o gymunedau a diwylliannau gwahanol.
- **Pwnc C:** **Lle sydd ar gael i Blant Chwarae: Mannau Agored a Mannau Chwarae Awyr Agored Dynodedig Heb Staff** - gan gynnwys mannau agored, parciau, mannau chwarae, tiroedd ysgolion, strydoedd preswyl, meysydd chwarae, Ardaloedd Chwaraeon Amlddefnydd (AChAau), ardaloedd chwarae olwynion.
- **Pwnc D: :** **Darpariaeth dan Oruchwyliaeth** - gan gynnwys darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored a gweithgareddau hamdden strwythuredig.
- **Pwnc E:** **Costau Darpariaeth Chwarae**
- **Pwnc F:** **Mynediad i Leoedd/Darpariaeth** - gan gynnwys mynediad at wybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau; gallu plant i deithio i fannau chwarae - llwybrau cerdded a beicio diogel, mesurau arafu traffig, darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.
- **Pwnc G:** **Sicrhau a Datblygu’r Gweithlu Chwarae** - strwythur a maint y gweithlu, hyfforddiant a chymorth sydd ar gael i weithwyr chwarae a gweithwyr proffesiynol sy’n cael effaith ar chwarae.
- **Pwnc H:** **Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cymunedol**
- **Pwnc I:** **Chwarae o fewn pob Polisi ac Agenda Weithredu berthnasol** - i ba raddau y cefnogir chwarae plant o fewn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Er bod Cyngor Bro Morgannwg yn arwain y broses Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cydnabyddir bod gan wasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol eraill, a'r preswylwyr eu hunain, i gyd ran i'w chwarae wrth gyfrannu at sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Felly, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth i gefnogi'r broses hon.

Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â phlant, pobl ifanc a thrigolion sy'n oedolion drwy arolygon, grwpiau ffocws a thrafodaethau unigol. Cwblhaodd 419 o blant a phobl ifanc yr arolwg 'Chwarae – Dweud Eich Dweud' ar-lein, a grëwyd i'w galluogi i ddweud eu dweud ynghylch a oes ganddynt yr amser a'r lle sydd ei angen arnynt i chwarae a gwneud gweithgareddau eraill pan nad ydynt yn yr ysgol. Cawson nhw'r cyfle i sôn am eu profiad o chwarae, cymdeithasu a mynd i glybiau tu allan i amser ysgol, beth oedd yn dda a ddim cystal am chwarae yn y Fro, a hefyd a oedd Covid wedi effeithio ar eu gallu i chwarae. Dylid nodi bod y pandemig wedi effeithio ar y gallu i ymgynghori mor llawn ag y dymunwyd, gyda dibyniaeth ar ymgynghori ar-lein. Felly, gallai hyn fod wedi cyfyngu ar amrywiaeth y plant a'r bobl ifanc a roddodd adborth a chyfyngu ar ymgynghori mwy lleol.

Gofynnir yn aml i oedolion siarad ar ran eu plant ac weithiau maen nhw'n teimlo eu bod nhw'n gwybod beth mae'r plant ei eisiau. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn wir, gyda phlant yn aml yn ateb yn wahanol. Cynhaliwyd arolwg 'Chwarae – Dweud Eich Dweud' hefyd gydag oedolion, gyda llawer o'r un cwestiynau'n cael eu gofyn ag yn yr arolwg i blant a phobl ifanc. Cwblhaodd 336 o oedolion yr arolwg ar-lein. Pan ofynnwyd yr un cwestiynau, cymharwyd y canlyniadau i weld a oedd unrhyw wahaniaethau






sylweddol yn yr ymatebion rhwng oedolion a phlant a phobl ifanc - mae'n ddiddorol nodi bod rhai gwahaniaethau mewn barn, gyda phlant a phobl ifanc yn aml yn fwy cadarnhaol am y cyfleoedd sydd ar gael na'r oedolion.

Cynhaliwyd ymchwil a thrafodaethau bwrdd gwaith gydag ystod o weithwyr proffesiynol a sefydliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar chwarae hefyd.  Cyfrannodd mwy na 30 o unigolion o adrannau mewnol y Cyngor a sefydliadau allanol at y broses. O gymharu â'r prosesau asesu blaenorol, roedd yr ymateb ymhlith sefydliadau ac adrannau mewnol yn is nag yn yr asesiadau blaenorol. Gellid priodoli hyn i effaith y pandemig, a roddodd bwysau mawr ar yr adnoddau staffio sydd ar gael i bob sefydliad. Cydnabyddir bod y ADCCh yn broses barhaus, felly mae gwaith datblygu partneriaeth, ymgynghori, casglu gwybodaeth a myfyrio parhaus ynghylch blaenoriaethau i sicrhau bod y cynlluniau gweithredu yn adlewyrchu anghenion y plant, y bobl ifanc a'r gymuned.





# ADRAN 3: EFFAITH PANDEMIG Y CORONOFEIRWS

## Effeithiodd pandemig y Coronafeirws yn sylweddol ar y gallu i gyflawni yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynlluniau Gweithredu Cyfleoedd Chwarae yn ystod y cyfnod ers ADCCh 2019

Nodir yn ddiolchgar fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr effaith a gafodd y pandemig ar y cynlluniau hyn, a'u bod yn cefnogi'r Awdurdodau Lleol i ddiwygio'r cynlluniau i'w gwneud yn fwy realistig o ystyried yr amgylchiadau a wynebwyd.

Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, daeth yr holl ddarpariaeth chwarae mynediad agored a strwythuredig i ben ar draws y sir. Gwnaeth datblygiadau prosiect hefyd arafu wrth i Dîm Chwarae'r Cyngor gael eu hailbwrpasu'n rhannol i rolau eraill i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu parhau i redeg gwasanaethau craidd ac y gallai ddarparu ar gyfer anghenion uniongyrchol pobl yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Digwyddodd yr un peth gyda phartneriaid mewnol eraill, a hefyd bartneriaid allanol, yr effeithiwyd ar lawer o'u rolau hefyd.

Roedd oedi i'r prosiectau a nodwyd yn y cynllun fel yr amlygwyd yn yr adroddiadau cynnydd priodol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.  Cariwyd llawer o brosiectau drosodd i'r blynyddoedd dilynol, a byddant yn parhau i gael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu sydd ar ddod. Newidiwyd neu ychwanegwyd camau gweithredu hefyd o ganlyniad i'r angen i addasu'r ffordd o weithio i fodloni'r amodau a brofwyd, ac



i gefnogi teuluoedd mewn angen. Er enghraifft, galwyd ar y Tîm Chwarae a Chwaraeon i ddarparu Darpariaeth Gwyliau Frys am ddim i blant y nodwyd eu bod yn agored i niwed trwy ddarpariaeth gofrestredig bresennol ar gyfer plant anabl, a thrwy sefydlu darpariaeth gofrestredig AGC newydd, sef Pafiliwn Chwarae'r Fro. Roedd camau

gweithredu ychwanegol eraill yn cynnwys creu pecyn adnoddau gweithgareddau ar-lein i gefnogi teuluoedd i wneud gweithgareddau cost isel / dim cost yn eu cartrefi ac yn yr ardaloedd awyr agored ger eu cartrefi (o ystyried y cyfyngiadau teithio a oedd ar waith). Gwnaeth hyn hefyd gefnogi'r teuluoedd a oedd yn profi caledi ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Yn ogystal, darparwyd offer am ddim drwy'r Helfa Drysor Chwareus o Actif, a oedd yn canolbwyntio ar ardaloedd lle gwyddwn fod teuluoedd yn cael eu heffeithio gan amddifadedd, a gwnaeth y prosiect Capsiwl Amser gefnogi teuluoedd a nodwyd.

Gan ei bod yn amlwg y byddai'r pandemig yn broblem hirach nag a feddyliwyd yn wreiddiol, nodwyd atebion pellach er mwyn gallu datblygu meysydd blaenoriaeth allweddol o fewn y cynlluniau. Mae enghraifft o'r fath yn cynnwys symud i ddarparu hyfforddiant ar-lein. Nid oedd gan y rhan fwyaf o bartneriaid sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant i gefnogi staff chwarae, gan gynnwys y Tîm Chwarae, unrhyw brofiad blaenorol o ddarparu hyfforddiant ar-lein, gyda llawer hefyd heb y dechnoleg angenrheidiol i wneud hynny'n effeithiol. Felly, gwelwyd buddsoddiad amser ymhlith sefydliadau perthnasol i addasu eu hadnoddau er mwyn gallu eu darparu'n rhithwir, a hefyd fuddsoddiad gan rai yn eu technoleg. Gwnaeth y ffrwd Cyllid Cyfalaf Chwarae helpu i gefnogi rhywfaint o'r buddsoddiad hwn. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyfforddiant ar-lein yn parhau i gael ei gynnwys o fewn rhaglen datblygu'r gweithlu, er y cydnabyddir ei bod yn ymddangos bod darpariaeth wyneb-yn-wyneb yn darparu gwell canlyniadau ac yn cefnogi mwy o ryngweithio a mewnbwn gan gyfranogwyr.

## ROEDD RHAI SYLWADAU YNGHYLCH EFFAITH Y PANDEMIG YN CYNNWYS:

- Tlodi ymysg rhieni sy'n gweithio, a nodwyd drwy ddarpariaeth gwyliau i blant anabl mewn Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf – diffyg dillad, bwyd ac ati. Roedd gweithwyr chwarae yn darparu cymorth dwys i deuluoedd yn ystod y ddarpariaeth gwyliau.
- Ystyriaethau wrth barhau i redeg y ddarpariaeth yn ystod y pandemig - ansicrwydd staffio gan fod llawer o staff yn gweithio mewn ysgolion, gydag achosion yn cael eu nodi mewn dosbarthiadau, hunanynysu ac ati.
- Targedwyd darpariaeth frys yr haf at blant a phobl ifanc a nodwyd fel rhai agored i niwed gan Weithwyr Cymdeithasol, yn hytrach na'r tîm chwarae a oedd yn gweithio mewn cymunedau a allai fod wedi bod angen cymorth chwarae. Gan fod y ddarpariaeth ar gyfer plant agored i niwed yn staff-ddwys ac nad oedd yn bosibl ymgymryd ag ymgyrch recriwtio, cyfyngedig oedd y cyfleoedd i gynnig darpariaeth yn y gymuned a fyddai wedi cael ei chroesawu ar adeg pan roedd hi'n amlwg bod plant eisiau bod tu allan ac yn actif.










## ER I'R PANDEMIG DDOD Â LLAWER O EFFEITHIAU NEGYDDOL, CODODD NIFER O EFFEITHIAU CADARNHAOL HEFYD A HELPODD I SYMUD CAMAU GWEITHREDU YN EU BLAEN. MAE'R RHAIN YN CYNNWYS:

- Gwnaeth y cyngor a'r gwahaniaethau - sy'n newid yn gyson - rhwng canllawiau gwahanol feysydd gweithgarwch e.e. chwaraeon a chwarae, achosi ansicrwydd mewn perthynas â'r hyn y gellid / na ellid ei ddarparu. Cafodd hyn ei effeithio ymhellach gan ganllawiau'r awdurdod lleol, a olygai fod pob digwyddiad wedi'i ganslo, ac awydd y Cyngor i sicrhau eu bod yn gosod esiampl i breswylwyr drwy beidio ag annog y cyhoedd i ymgasglu mewn grwpiau mawr. Felly, er y gellid cyflwyno gweithgareddau chwarae yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru sy'n benodol gysylltiedig â chwarae yn dilyn y cyfnod clo, roedd yn anodd cyflwyno rhai gweithgareddau tra'n dal i geisio cyfleu'r neges gywir i'r cyhoedd, nad oedd llawer ohonynt yn deall manylion y canllawiau.

- Roedd yn gyfnod anodd i'r Clwb Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf a Teenscheme, sy'n cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Pan roedd cyfyngiadau'n caniatáu i'r ddarpariaeth gael ei chynnal, roedd hyn mewn gwahanol fformatau i'r arfer. Nid oedd presenoldeb mor uchel ag yn y blynyddoedd blaenorol am resymau yn cynnwys rhai cyfranogwyr rheolaidd yn hunan-warchod, methiant i sicrhau nyrs i gefnogi plant sydd angen cymorth meddygol, a'r cyfyngiadau a oedd ar waith yn lleoliad CGTG (Ysgol y Deri) a olygai nad oedd modd cael mynediad i'r lleoliad ar adegau ac, ar adegau eraill, dim ond disgyblion YYD oedd yn cael mynychu. Er gwaethaf yr anawsterau parhaus hyn, gweithiodd arweinydd y prosiect gyda'r partneriaid a'r teuluoedd i sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod plant yn dal i allu manteisio ar gyfleoedd chwarae o safon yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan hefyd ddarparu cymorth gwerthfawr i deuluoedd. Pan nad oedd plant yn gallu mynychu'r cynllun, roedd y tîm chwarae'n eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau gartref lle bo modd, gan ddosbarthu pecynnau 'Hyrwyddwyr y Cyfnod Clo' i blant a nodwyd.

- Mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae (amlasiantaethol yn ogystal â'r gymdeithas ehangach!)

- Mwy o ddiddordeb mewn chwarae awyr agored lleol - gan fod canllawiau'r cyfnod clo wedi atal teuluoedd rhag teithio i leoliadau yn y car a bod pobl yn awyddus i ymgymryd â'u 'hawr o ymarfer corff', ymchwiliodd mwy o deuluoedd i leoliadau teithio llesol hwyl yn eu cymuned leol. Manteisiodd y tîm Chwarae a Chwaraeon ar hyn trwy drefnu teithiau cerdded lles wythnosol a wnaeth ddarparu syniadau ar gyfer gweithgareddau hwyl i'w cynnal wrth gerdded yn eu cymunedau. Roedd y rhain yn edrych ar wahanol weithgareddau yn yr amgylchedd fel rhwbio dail, rholio i lawr bryniau, sgimio cerrig ac ati.

- Yn yr haf cyntaf ar ôl i'r pandemig daro, cafodd sesiynau Ceidwaid Chwarae awyr agored eu cyflwyno bedwar diwrnod yr wythnos ar draws dau safle drwy gydol yr haf, ac fe'u mynychwyd gan fwy o blant nag erioed, sy'n dangos pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i'r plant.

- Amlygodd yr Arolwg Chwarae Mewn Pandemig fod chwarae yn yr awyr agored wedi cynyddu, ac amlygwyd diddordeb mewn cau strydoedd ar gyfer chwarae, gydag awydd ymhlith yr holl bartneriaid perthnasol i ddatblygu'r prosesau/elfen polisi o fewn y prosiect Chwarae Stryd.






- Mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill nad ydynt yn ymwneud â chwarae yn cydnabod yn gynyddol rôl chwarae wrth gefnogi iechyd a lles plant.
- Sefydlwyd Grŵp Tactegol Plant Bregus, a fynychwyd gan bartneriaid Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Chwarae i drafod sut y gellid cefnogi plant agored i niwed (a'u teuluoedd) trwy chwarae yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Cafodd parciau a mannau agored eu cynnal yn ystod y cyfnod clo, felly unwaith yr oedd rheolau'r cyfnod clo yn caniatáu hynny, gallai preswylwyr ddychwelyd i lefydd chwarae ac agored o safon uchel. Bu'n bosibl i rywfaint o waith barhau hefyd gyda phrosiectau datblygu mewn Parciau yn gysylltiedig â'r cyllid Cyfalaf Chwarae, a oedd yn cynnwys adeiladu Strwythurau Helyg ym Mharc Romilly, a gafodd adborth gwych unwaith i'r parc ailagor.
- Mae technoleg staff wedi'i gwella gyda diweddariadau i Liniaduron / Ffonau ac ati i wneud gweithio symudol yn fwy cyfleus. Mae technoleg bellach yn cefnogi dyfodol dysgu cyfunol – hyfforddiant rhithwir / wyneb-yn-wyneb. Mae staff bellach yn teimlo'n gymwys a hyderus i ddarparu pecyn hyfforddi ar-lein helaeth i deuluoedd, gweithwyr proffesiynol, ysgolion a phartneriaid eraill.
- Oherwydd yr angen i ddibynnu ar ddulliau ar-lein i annog a hyrwyddo cyfleoedd chwarae teuluol yn ystod y cyfnod clo, gwnaed gwelliannau i'r wefan chwarae a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a chynyddwyd cynnwys.
- Roedd y cyfnod clo yn golygu bod gan deuluoedd fwy o amser i'w lenwi gartref, felly anogwyd teuluoedd i ymgymryd â gweithgareddau chwarae am ddim, fel modelu sbwriel a gemau mwy traddodiadol yn hytrach na threulio gormod o amser ar dechnoleg.





# ADRAN 4:
# BETH WNAETHON NI EI DDARGANFOD?

Mae cwblhau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn wedi tynnu sylw at y ffaith bod digon o gyfleoedd chwarae o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael a'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar ddarparu a datblygu cyfleoedd.

Er, fel y nodwyd hefyd yn ADCCh 2019, mae galw ac awydd i ddatblygu mwy a pharhau i godi ymwybyddiaeth o fanteision chwarae.

Cafodd pandemig y Coronafeirws effaith ar draws amserlen gyfan yr ADCCh hwn ac effeithiodd ar gyflawni'r cynllun gweithredu cyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, gweithiodd yr holl bartneriaid yn galed i ymateb i'r pandemig a chynnal y meysydd pwnc a chymryd camau lle roedd yn ymarferol gwneud hynny. Mae hyn yn amlwg yn y tabl isod sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r meysydd meini prawf o leiaf wedi'u cadw ar yr un lefel, gyda 5 yn gwella dros y cyfnod hwn. Mae statws 7 o'r meini prawf wedi gostwng, er bod 2 o'r rhain yn ymwneud ag ailwerthuso asesiad 2019, a aseswyd yn ôl-weithredol yn is na'r hyn a ddynodwyd yn wreiddiol. Dangosir y dadansoddiad o'r rhain isod.



| Mater | Cynyddu | Arhosodd yr un peth | Gostwng | | Gwyrdd | Ambr | Coch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A - Poblogaeth | 0 | 1 | 0 | | 0 | 1 | 0 |
| B - Anghenion amrywiol | | 0 | 9 | | 1 | 1 | 8 1 |
| C - Lle i blant chwarae *(Cynllunio, parciau, mannau agored)* | 16 | 0 | 5 | | 10 | 2 | |
| D - Darpariaeth dan oruchwyliaeth | 1 | 12 | 0 | | 6 | 7 | 0 |
| E - Taliadau am ddarpariaeth chwarae | 0 | 7 | 1 | | 2 | 4 | 2 |
| F - Mynediad i Space/Gwybodaeth am Ddarpariaeth Cyhoeddusrwydd a Digwyddiadau | 2 | 16 | 2 | | 7 | 13 | 0 |
| G - Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae | 0 | 10 | 0 | | 0 | 10 | 0 |
| H - Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfranogiad | 0 | 2 | 0 | | 0 | 2 | 0 |
| I - Chwarae o fewn yr holl bolisi perthnasol Agendâu gweithredu | 1 | 14 | 3 | | 2 | 15 | 1 |
| | 5 | 87 | 7* | | 23 | 70 | 6 |

** 2 o'r rhain oherwydd gorasesiad mewn ADC blaenorol*

Cydnabyddir nad yw'r pynciau uchod yn rhai annibynnol, ac mae effaith drawsbynciol ar draws y gwahanol bynciau. Felly, at ddibenion y crynodeb hwn, mae'r pynciau hyn yn cael eu hystyried gyda'i gilydd yn hytrach nag fel meysydd pwnc unigryw.

## MAE'R ASESIAD WEDI DANGOS:



- Bod canlyniadau'r arolwg 'Chwarae – Dweud Eich Dweud' yn tynnu sylw at y pwysigrwydd y mae plant a phobl ifanc yn ei roi ar gael yr amser, y lle a'r caniatâd i chwarae ac ymgymryd â hamdden. Rhoddodd 81% o blant a phobl ifanc a arolygwyd adborth cadarnhaol am y cyfleoedd i chwarae neu gymdeithasu ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn ostyngiad o 8% ers i'r arolwg blaenorol gael ei gynnal yn 2018, lle darparodd 89% adborth cadarnhaol (cyn Covid).

- Er bod yr ystadegau hyn yn tynnu sylw at adborth cadarnhaol yn gyffredinol, cydnabyddir bod 73% yn teimlo bod cyfle i'w gwella mwy fyth. Er ei fod yn dal i fod yn ymateb cadarnhaol, roedd lefel boddhad llawer is ymhlith oedolion, gyda 71% o oedolion yn rhoi ymatebion cadarnhaol. Mae'r gwahaniaethau hyn yn tynnu sylw'n uniongyrchol at bwysigrwydd ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd yn aml â safbwyntiau gwahanol iawn i oedolion pan ofynnir iddynt am chwarae. Mae'r patrwm hwn yn amlwg ar draws nifer o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg 'Chwarae - Dweud Eich Dweud'.

- Cydnabyddir yn y Fro fod rhieni a gofalwyr yn dylanwadu'n aml ar sut a phryd y gall plant a phobl ifanc gael gafael ar gyfleoedd chwarae a pha gyfleoedd chwarae sydd ar gael, felly mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd rhoi i blant yr amser, y lle a'r rhyddid i ddewis pryd, sut a ble maen nhw'n chwarae.

- Wrth edrych ar lefelau bodlonrwydd mewn perthynas â chyfleoedd i chwarae a'r hyn sy'n ei gwneud hi'n dda chwarae yn y Fro, mae'n ddiddorol nodi'r pwysigrwydd y mae plant a phobl ifanc yn ei roi ar



effaith ‘cael ffrindiau sy’n byw’n agos/chwarae gyda ffrindiau’ o gymharu ag oedolion. Mae plant a phobl ifanc yn dweud bod cael ffrindiau, a ffrindiau sy’n byw’n agos, i chwarae gyda nhw yn ffactor pwysig iddyn nhw. Fodd bynnag, mae oedolion yn nodi bod hyn yn llawer llai pwysig na phlant/pobl ifanc.  Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i blant sy’n byw mewn ardaloedd mwy gwledig, ac i blant/pobl ifanc sy’n mynychu ysgol y tu allan i’w cymuned, yn enwedig plant/pobl ifanc anabl sy’n aml yn gorfod teithio cryn bellter i’w hysgol.

- Mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn cydnabod yr effaith gadarnhaol y mae’r amgylchedd awyr agored gwych yn y Fro yn ei chael ar gyfleoedd chwarae, gan gynnwys argaeledd mannau agored, coedwigoedd, yr arfordir a’r parciau.  Roeddent yn gwerthfawrogi faint o le sydd ar gael yn eu cymunedau lle’r oeddent yn teimlo y gallent chwarae.  Amlygwyd hyn ymhellach pan roedd cyfyngiadau’r pandemig yn golygu bod yn rhaid i drigolion ‘aros yn lleol’, ac ardaloedd chwarae sefydlog wedi’u cau, gyda theuluoedd yn archwilio eu cymunedau lleol i ddod o hyd i gyfleoedd chwarae a hamdden gwahanol. Mae’r pandemig wedi cefnogi ‘cymunedau chwarae’ datblygol lle mae gwerthfawrogiad ehangach o ble a sut y gall plant chwarae a beth yw gwir ystyr ‘chwarae’. Nodir fodd bynnag fod gwahaniaethau yn seiliedig ar ble roedd ymatebwyr yn byw, a hefyd rhwng y rhai oedd yn fwy parod i gerdded i lefydd ‘chwarae’.

- Er bod mynediad i ofod awyr agored ar gyfer chwarae yn gadarnhaol, mae’n anodd cael mynediad i ofod dan do addas i redeg darpariaeth chwarae gymunedol dan oruchwyliaeth ledled y Fro. Mae ysgolion yn adnodd cymunedol gwych gyda gofod dan do ac awyr agored a all gefnogi’r gwaith o ddarparu cyfleoedd chwarae cynhwysol, ond mae mynediad i’r lleoliadau hyn y tu allan i amser ysgol yn anodd. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth chwarae dan do dan oruchwyliaeth yn aml yn cael ei chynnig mewn ardaloedd lle gellir cael mynediad i leoliadau, yn hytrach na lleoliadau sy’n hawdd eu cyrraedd neu yn y cymunedau a allai sicrhau’r budd mwyaf.

- Mae Pwnc C yn ymwneud â’r llefydd sydd ar gael i chwarae. Mae’r awdurdod lleol yn cadw data meintiol ynghylch y mannau agored yn y Fro, ond mae diffyg adnoddau’n rhwystro’r cyfle i gasglu gwybodaeth ansoddol am werth chwarae a’r profiadau chwarae ym mhob gofod, a fyddai’n cefnogi darlun cliriach o gyfleoedd chwarae lleol ac ardaloedd i dargedu datblygiadau yn y dyfodol.

- Roedd boddhad ar ardaloedd chwarae sefydlog yn dibynnu ar ble mae plant ac oedolion yn byw. Amlygodd nifer o blant ac oedolion welliannau cadarnhaol gydag offer chwarae mewn parciau, a oedd mewn ardaloedd lle defnyddiwyd cyllid A106 a ffynonellau cyllid eraill i weithredu gwelliannau. I’r gwrthwyneb, gwnaed llawer o sylwadau am gyflwr







gwael parciau mewn rhai ardaloedd gan gynnwys Sili a'r Rhws. Nodir bod oedolion wedi mynegi lefel uwch o anfodlonrwydd gydag ardaloedd chwarae sefydlog na phlant, a bod consensws cyffredinol bod y mannau hyn wedi'u targedu'n fwy at blant iau, gyda dim digon o offer yn targedu'r ystod oedran hŷn. Byddent yn hoffi gweld parciau gyda mwy o gyfleoedd i bobl ifanc chwarae / cymdeithasu wrth iddynt dyfu'n hyn gyda chyfarpar fel weiriau gwib, ardaloedd chwarae antur a strwythurau dringo mwy.

- Amlygodd rhai pobl ifanc o oedran uwchradd a gwblhaodd yr arolwg fod diffyg mannau heb oruchwyliaeth i bobl ifanc ymgynnull lle gallent gadw'n gynnes, lle nad oedd yn rhaid iddynt dalu i ddod at ei gilydd (e.e. roedd llawer yn cyfarfod mewn caffis gan eu bod yn fannau cynnes, golau) a lle nad oeddent yn teimlo bod eraill yn eu beirniadu am fod gyda'i gilydd fel grŵp o bobl ifanc. Gwnaethant nodi bod yna ganfyddiad ymhlith rhai oedolion mewn rhai ardaloedd fod pobl ifanc yn ymgynnull at ddibenion negyddol - roedden ni i gyd yn ifanc unwaith a rhaid ceisio cofio nôl at pan roedden ni eisiau'r rhyddid i gwrdd â'n ffrindiau yn rhywle y tu allan i'n tai ein hunain heb oedolion.

- Fel gyda'r asesiad blaenorol, amlygodd yr asesiad hwn fod angerdd a dealltwriaeth gynyddol o fanteision chwarae. Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol o werth chwarae ymysg rhieni / gofalwyr, Cyngor Bro Morgannwg a'u partneriaid, sy'n cydnabod yr effeithiau iechyd a lles ar blant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau. Cydnabuwyd hyn yn arbennig yn ystod y pandemig ac wrth i ni adfer ar ei ôl. Tra bod yna awydd cyffredinol i gynyddu cyfleoedd chwarae i ddarparu gweithgareddau llawn hwyl i blant a phobl ifanc, yr effaith ychwanegol a'r 'gwerth ychwanegol' sydd ynghlwm wrth chwarae sy'n helpu i godi proffil a gwerth chwarae y tu allan i'r proffesiwn chwarae yn y Fro. Mae gweithwyr proffesiynol eraill yn gweld chwarae fel cyfrannwr cadarnhaol at iechyd a lles, meithrin gwydnwch, datblygu sgiliau, cefnogi teuluoedd a chymunedau i gysylltu a darparu ffordd o leddfu neu gael amser i ffwrdd o bryder a straen. Er ei bod yn bwysig nad yw gwerth chwarae er mwyn chwarae yn cael ei golli, y buddion a ddaw yn sgil chwarae - i blentyn, teulu a chymuned - sy'n helpu i gynyddu diddordeb a buddsoddiad amser ac adnoddau mewn chwarae yn y Fro.

  Mae gwerth chwarae yn cael ei gydnabod drwy gynnwys chwarae o fewn dogfennau strategol allweddol gan gynnwys Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a chynlluniau corfforaethol. Fodd bynnag, prin yw'r adnoddau ariannol parhaus sydd ar gael o hyd i gefnogi cynllunio tymor hwy, gyda datblygiadau'n dibynnu ar argaeledd ffrydiau cyllido untro.

- Gan fod cyfyngiadau'r pandemig wedi effeithio ar gyflawni gweithgarwch wyneb-yn-wyneb, yn ystod cyfnod yr asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae hwn, roedd ffocws ar gefnogi teuluoedd i gael mynediad i chwarae cost isel / dim cost yn eu cymunedau, a ddatblygwyd trwy amrywiaeth o brosiectau a mecanweithiau hyrwyddo gwahanol fel y cyfryngau cymdeithasol a'r we, yn ogystal â hyrwyddo mwy targedig trwy gysylltiadau â sefydliadau penodol sy'n cefnogi teuluoedd mewn angen.

- Mae cyllid grant allanol o ffynonellau fel Llywodraeth Cymru wedi bod yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at gynnal ac, mewn rhai meysydd pwnc, gynyddu digonolrwydd cyfleoedd chwarae dros y cyfnod y mae'r pandemig wedi effeithio arno. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei groesawu a'i ddefnyddio'n briodol i gael effaith gadarnhaol ar chwarae. Fodd bynnag, gwnaeth yr amserlen pan roedd y cyllid hwn ar gael a'r amserlen ar gyfer ei wario, y cyfyngiadau ar yr hyn y gellid defnyddio'r cyllid ar ei gyfer, a'r capasiti staffio cyfyngedig o fewn yr Awdurdod Lleol a sefydliadau partner gyflwyno rhai heriau.

- Mae'r Awdurdod Lleol yn manteisio ar wahanol ffrydiau ariannu sydd ar gael i ddarparu ac adnoddu rhaglen o gyfleoedd chwarae am ddim i blant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â chefnogi partneriaid allanol i wneud hynny. Lle mae cyllid yn cael ei nodi a staff ar gael, mae darpariaeth wedi'i staffio hefyd wedi'i chynnig yn ystod y tymor. Mae plant a rhieni / gofalwyr yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth chwarae am ddim wedi'i staffio. Mae cyllid Gwaith Chwarae, Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles wedi bod yn hanfodol i ariannu'r gwaith o ddarparu'r cyfleoedd hyn ac mae hefyd wedi hwyluso mwy o gydweithio. Oherwydd y cyllid cyfyngedig sydd ar gael, natur y cyllid a chapasiti staffio, fel arfer mae'n rhaid targedu'r ddarpariaeth chwarae am ddim mewn ardaloedd penodol o'r Fro a nodi grwpiau targed.

- Defnyddir dull cydweithredol o ariannu a darparu cyfleoedd datblygu staff chwarae a gwaith chwarae, gyda dibyniaeth ar gyllid allanol gan bartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn. Mae hyfforddiant gwaith chwarae penodol wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus yn ogystal â gweithdai chwarae amhenodol fel diogelu, cymorth cyntaf, codi a chario ac ymwybyddiaeth o gynhwysiant anabledd. Mae



cyfleoedd dysgu anffurfiol yn cael eu hyrwyddo fel rhan o'r rhaglen DPP gyda gweithwyr chwarae newydd yn cael eu cysylltu â gweithwyr chwarae mwy profiadol.

- Un o'r prif heriau o ran darpariaeth chwarae wedi'i staffio yw cadw staff cymwys. Mae hon yn her barhaus i'r holl bartneriaid darparu, yn y Fro a thu hwnt. Rhoddir ystyriaeth barhaus i'r her hon, ond mae'n anodd nodi atebion uniongyrchol a thymor hwy oni bai bod cyllid hirdymor penodol ar gael i allu cynllunio darpariaeth tymor hwy a gwneud gwaith chwarae yn broffesiwn hyfyw.
- Dysgu anffurfiol a chodi ymwybyddiaeth i wirfoddolwyr a rhieni i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau o amgylch chwarae trwy lwybrau fel Diwrnodau Hwyl i'r Teulu a sesiynau chwarae i'r teulu a gynhelir gan Dîm Chwarae'r Fro, Dechrau'n Deg a phartneriaid eraill.
- Mae ehangder yr ADCCh a chapasiti cyfyngedig unigolion i gyfrannu tuag at y broses asesu unwaith eto wedi cael ei amlygu gan nifer o bartneriaid mewnol ac allanol. Nodwyd bod y pandemig Covid yn achosi effaith arbennig o negyddol, gan osod galwadau cystadleuol ar amser, gyda rhai partneriaid yn cael llai o amser i ganolbwyntio ar feysydd gwaith eraill. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwerth maen nhw'n ei roi ar chwarae, ond realiti o orfod blaenoriaethu eu hamser yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn hanfodol i ddatblygu cyfleoedd chwarae, gydag enghreifftiau o adrannau mewnol a sefydliadau allanol yn cronni adnoddau ariannol, staffio a chorfforol, yn ogystal â mewnwelediad a gwybodaeth. Mae hyn yn gwella ac mae'n arbennig o effeithiol wrth ddatblygu rhai gwasanaethau ar gyfer grwpiau wedi'u targedu, fel plant anabl. Cydnabyddir mai dull amlasiantaethol yw'r unig ffordd y gellir darparu gwasanaethau datblygu chwarae yn realistig yn yr hinsawdd bresennol, lle mae adnoddau yn y sector gwirfoddol a statudol yn gyfyngedig a heb eu gwarantu.

# ADRAN 5:
# EIN BLAENORIAETHAU WRTH SYMUD YMLAEN

**Mae'r blaenoriaethau canlynol wedi eu nodi:**

- Dull cydweithredol o gasglu a dadansoddi mewnwelediad yn barhaus i lywio gwaith cynllunio a chynnwys plant a phobl ifanc yn weithredol mewn penderfyniadau ynghylch chwarae yn eu cymunedau.
- Targedu adnoddau a darpariaeth gan gynnwys cefnogi chwarae ymhlith y rhai y mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt, rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a phlant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol.
- Cefnogi sefydliadau a gwirfoddolwyr cymunedol i ddarparu cyfleoedd chwarae o safon.
- Cynnig darpariaeth chwarae wedi'i staffio am ddim a chefnogi teuluoedd i fanteisio ar gyfleoedd am ddim / cost isel eu hunain.
- Cynyddu'r gweithlu chwarae gyda ffocws ar recriwtio Swyddog Datblygu Gweithlu Gofal Plant a Chwarae i gefnogi datblygiad y gweithlu a staff chwarae achlysurol i gefnogi'r gwaith o gynnig mwy o ddarpariaeth gymunedol.
- Darparu pecyn hyfforddi helaeth i staff chwarae a gwirfoddolwyr cymunedol newydd a phresennol i gynyddu gwybodaeth a sgiliau.
- Annog a chefnogi trigolion i chwarae yn eu cymunedau lleol, gan gynnwys datblygu'r fenter Chwarae Stryd i gefnogi datblygiad polisi cau ffyrdd ar gyfer cymunedau.
- Mapio llefydd chwarae cymunedol.
- Cynyddu mynediad i chwarae o fewn lleoliadau ysgol drwy'r fenter Ysgolion sy'n Dda i Chwarae.
- Annog agweddau cadarnhaol at blant a chwarae.

Fel rhan o'r broses Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, crëwyd cynllun blwyddyn i ddatblygu'r blaenoriaethau uchod. Amlygwyd y camau a nodwyd yn y cynllun o ganlyniad i'r broses asesu a nodi diffygion, dadansoddi mewnwelediad a gafwyd drwy ymgynghori ac ymgysylltu, ac o drafodaethau gyda phartneriaid mewnol ac allanol. Y brif ystyriaeth wrth nodi camau i'w cynnwys oedd nodi camau gweithredu a oedd yn gyraeddadwy o fewn yr amserlen, y cyllid a'r adnoddau a oedd ar gael. Bydd rhai o'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun yn cymryd mwy na blwyddyn i'w gweithredu neu i gael effaith. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu cynnwys yn y cynllun gweithredu a byddant yn cael eu trosglwyddo i gynlluniau gweithredu'r dyfodol lle bo hynny'n berthnasol. Yn yr un modd â chynlluniau gweithredu ADCCh blaenorol, bwriedir i'r ddogfen hon fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu a'i diwygio lle y bo'n briodol.

Fel yn achos yr holl Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol, oherwydd cyfyngiadau ariannol, bydd cyllidebau cyfyngedig ar gael i'w dyrannu i chwarae wrth symud ymlaen oni bai bod cyllid allanol yn dod ar gael fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, bydd y cydweithio cadarnhaol rhwng partneriaid yn parhau, a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu nodi i yrru camau blaenoriaeth yn eu blaenau. Oherwydd adnoddau cyfyngedig, nodwyd nifer o gamau gweithredu neu gamau gweithredu cost isel y gellir eu cyflawni heb unrhyw gost ychwanegol gan ddefnyddio adnoddau presennol.

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyngor Bro Morgannwg